# Cyngor Adnewyddu'r Economi

## Cyllideb Llywodraeth Cymru: Blaenoriaethau a Rhagolygon

**Diben**

1. Cynnig diweddariad i Gyngor Adnewyddu'r Economi (CER) am y rhagolygon o ran cyllid cyhoeddus yng Nghymru a'r heriau ariannol o'n blaenau.

**Gweithredu**

2. Gofynnir i CER nodi cynnwys y papur hwn.

**Cefndir**

3. Yn ystod y paratoadau ar gyfer Cyllideb Llywodraeth Cymru y llynedd, cynhaliais gyfres o Ddigwyddiadau Cyllideb rhanbarthol ar draws Cymru i drafod yr heriau ariannol y mae Llywodraeth Cymru yn eu hwynebu, gyda phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol.

4. Gan ddatblygu'r gwaith ymgysylltu hwn, rydw i'n cynnal Taith Cyllideb 2014 ar draws Cymru, sy'n cynnwys cyfres o ddigwyddiadau rhanbarthol misol gyda staff rheng flaen y maent wrthi yn darparu gwasanaethau cyhoeddus – mewn awdurdodau lleol, ym maes iechyd, tai a'r trydydd sector. Diben y cyfarfodydd yw parhau i godi ymwybyddiaeth o effeithiau mesurau cynildeb Llywodraeth y DU ar Gyllideb Llywodraeth Cymru, a gwrando ar safbwyntiau rhanddeiliaid allweddol ynghylch blaenoriaethau buddsoddi'r Llywodraeth.

5. Fel rhan o hyn, rydw i'n croesawu'r cyfle i geisio safbwyntiau'r sector preifat fel partner cyflawni allweddol wrth dywys Cymru allan o'r dirwasgiad.

**Cyllidebau tan 2015-16**

6. Roedd Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU ym mis Hydref 2010 yn pennu Cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer y pedair blynedd rhwng 2011-12 a 2014-15. Roedd y setliad yn cynrychioli'r dyraniad mwyaf heriol ers i'r broses ddatganoli gychwyn. Ers hynny, cyhoeddodd Llywodraeth y DU Rownd Gwariant 2013, a oedd yn gosod Cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16 am y tro cyntaf. Yn ogystal â'r cyhoeddiadau ynghylch y Rownd Gwariant, mae Llywodraeth y DU wedi gwneud nifer o addasiadau i Gyllideb Llywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod.

7. Gan ystyried yr holl addasiadau a wnaethpwyd yn ystod cyfnod yr Adolygiad o Wariant, bydd cyfanswm y gyllideb DEL yn 2015-16 10 y cant yn is mewn termau real nag yr oedd yn 2010-11.


**Rhagolygon ynghylch Gwariant Cyhoeddus yn y Dyfodol**

8. Nid yw Llywodraeth y DU wedi gosod cynlluniau gwario manwl ar gyfer 2016-17 ac wedi hynny eto, ac mae'n debygol iawn na fyddwn yn gwybod y manylion ynghylch cyllidebau ar ôl 2015-16 tan yr Haf 2015. Fodd bynnag, mae'r holl arwyddion yn dynodi bod y rhagolygon ariannol ar ôl 2015-16 yn golygu bod ein Cyllideb yn debygol o fod dan fwy fyth o bwysau. Mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid wedi rhagweld, gan ddibynnu ar benderfyniadau Llywodraeth y DU, y gallai ein Cyllideb fod oddeutu 20% yn is ar ddiwedd y ddegawd nag yr oedd ar ddechrau'r ddegawd.


9. Mae gwneud rhagolygon am sefyllfa ariannol Llywodraeth y DU yn hynod o heriol, nid y lleiaf oherwydd yr ansicrwydd ynghylch perfformiad yr economi ehangach, sy'n ysgogi refeniw trethi a meysydd mawr o'r gwariant ar les.

10. Fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU wedi darparu amlen fras ar gyfer y gwariant tebygol yn ystod y blynyddoedd ariannol yn y dyfodol, ac o hon, gallwn ystyried sefyllfaoedd tebygol ar gyfer cyllid cyhoeddus yng Nghymru.

11. Ar sail y rhagolygon presennol, er y gallai cyllidebau cyfalaf godi mewn termau ariannol, rydym yn disgwyl gweld gostyngiadau pellach mewn termau real i'r gyllideb gyfalaf tan 2017-18 o hyd, gyda'r dybiaeth y bydd yn parhau i fod yn wastad mewn termau real wedi hynny. Mae'r graff isod yn dangos proffil DEL cyfalaf mewn termau real dros gyfnod o 20 mlynedd.




12. O ran refeniw, rydym yn wynebu mwy o her fyth, ac mae cyllidebau yn debygol o ostwng ar lefel ariannol ac mewn termau real tan 2018-19, gyda'r dybiaeth y byddant yn parhau i fod yn wastad mewn termau real ar ôl hynny. Mae'r graff isod yn dangos proffil DEL refeniw mewn termau real dros gyfnod o 20 mlynedd.




13. Mae'r heriau ariannol anodd yr ydym yn eu hwynebu yn golygu na fydd modd i ni barhau i ddarparu popeth yr ydym yn ei gynorthwyo ar hyn o bryd, ac y bydd y dasg o reoli ein blaenoriaethau o fewn cyllidebau sy'n gostwng yn mynd yn dasg anoddach fyth yn ystod y blynyddoedd i ddod.

**Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru**

14. Wrth siapio cynlluniau ar gyfer gwariant yn y dyfodol, mae Llywodraeth Cymru yn dymuno sicrhau mai'n blaenoriaethau ar gyfer buddsoddiad yw'r rhai cywir. Er gwaethaf yr heriau yr ydym wedi eu hwynebu yn ystod cyfnod yr Adolygiad o Wariant hwn, rydym wedi bod yn benderfynol o hyrwyddo a datblygu polisïau sy'n rhoi hwb i dwf a swyddi, sy'n diogelu ein gwasanaeth iechyd ac sy'n buddsoddi yn ein plant a'n pobl ifanc.

15. Adlewyrchir y blaenoriaethau hyn yn ein cynlluniau gwario presennol:

- Diogelu buddsoddiad yn ein gwasanaeth iechyd – erbyn hyn, mae'r gyllideb ar gyfer GIG Cymru yn fwy nag y mae wedi bod erioed o'r blaen, a buddsoddir £620m ychwanegol dros dair blynedd i adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau Cymru;

- Gwella cyrhaeddiad addysgol a diogelu buddsoddiad mewn gwariant yn y rheng flaen mewn ysgolion – mae £35m ychwanegol wedi ei fuddsoddi yn ystod 2014-15 ar gyfer y Grant Amddifadedd Disgyblion, a fydd yn codi swm ein cyllid fesul disgybl cymwys o £450 i £918;

- Cynnal ein Budd-daliadau Cyffredinol – mae'r buddsoddiad hwn yn cynnig cyfleoedd hanfodol i fanteisio ar wasanaethau, yn enwedig yn ystod cyfnodau o galedi ariannol;

- Cynorthwyo plant yn ystod y blynyddoedd cynnar a phlant cyn ysgol – mae nifer y plant sy'n cael budd gan Ddechrau'n Deg wedi dyblu a bydd 500 o Swyddogion Cymorth Cymunedol ychwanegol yn parhau i wasanaethu cymunedau yn ystod 2015-16;

- Ymrwymiad parhaus tuag at greu swyddi a chynorthwyo twf economi Cymru – ers cyhoeddi Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru ym mis Mai 2012, rydym wedi sicrhau buddsoddiad ychwanegol o oddeutu £2bn, gan gynnwys dros £1.1bn ar ffurf cyfalaf a £900m trwy gyfrwng cyllid arloesol er mwyn rhoi hwb i swyddi a thwf; a

- Chynorthwyo pobl ifanc – rydym wedi ymestyn Twf Swyddi Cymru gan wneud buddsoddiad ychwanegol o £12.5m er mwyn creu dros 4,000 o gyfleoedd swyddi ychwanegol ar gyfer pobl ifanc 16-25 oed yn ystod 2015-16.

**Argymhellion**

16. Gofynnir i'r Cyngor nodi cynnwys y papur hwn, gyda'r nod o drafod blaenoriaethau buddsoddi Llywodraeth Cymru yn ystod cyfarfod nesaf y Cyngor, a sut y mae modd i ni gydweithio er mwyn ymateb i'r heriau ariannol o'n blaenau.